Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Yr Adran Orthopteg

# Triniaeth Atropine ar gyfer Amblyopia
# Gwybodaeth i gleifion

---

**Beth yw Amblyopia?**
Cyflwr plentyndod sy'n digwydd pan na fydd y golwg mewn un llygad neu'r ddau lygad yn datblygu'n gywir yw Amblyopia, a elwir hefyd yn 'llygad diog'. Os bydd gan eich plentyn amblyopia mewn un llygad, bydd y golwg yn y llygad hwn yn niwlog a bydd yn dibynnu ar y llygad arall i weld.

**Beth sy'n achosi amblyopia?**
Mae Amblyopia'n digwydd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r llygad. Gall y canlynol achosi hyn:

- Llygad croes (tro yn y llygad).
- Presgripsiwn sbectol cryf yn un neu'r ddau lygad.
- Gwahaniaeth dirfawr yn y presgripsiwn sbectol rhwng y ddau lygad.
- Problem strwythurol yn y llygad, neu unrhyw beth s'n atal golau rhag cyrraedd cefn y llygad (retina).

**Sut mae trin amblyopia?**
Os na fydd eich plentyn yn gweld yn iawn, cynhelir prawf llygad ar gyfer sbectol ac archwilir cefn y llygaid i sicrhau eu bod yn iach. Awgrymir bod angen sbectol. Os bydd y golwg yn wan o hyd mewn un llygad gyda'r sbectol, gellir trin amblyopia gyda chlwt neu ddiferion Atropine.

I gael gwybodaeth am glytiau fel math o driniaeth, gofynnwch i'r Orthoptydd neu gofynnwch am daflen 'Clytiau ar gyfer Amblyopia'.

**Sut mae Atropine yn helpu golwg fy mhlentyn?**
Mae'n ymledu'r gannwyll ac yn cymylu golwg y llygad 'da' i annog defnyddio'r llygad diog, yn arbennig wrth edrych ar bethau agos.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio:**

- Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl rhoi'r diferion i mewn.
- Dylid defnyddio'r diferion ddwywaith yr wythnos yn unol â chyfarwyddyd eich Orthoptydd.
- Gyda eich plentyn yn gorwedd lawr, rhowch un diferyn o Atropine yn y llygad da.
- Dylid storio Atropine ar dymheredd ystafell allan o gyrraedd plant.
- Anogwch eich plentyn i wneud gwaith agos gan mai dyna pryd mae'r diferion ar eu mwyaf effeithon.

**Mae'n hynod bwysig eich bod yn goruchwylio'r driniaeth hon yn ofalus. Os na allwch chi fynychu eich apwyntiad, cofiwch roi gwybod i'r Ganolfan Apwyntiadau cynted ag sy'n bosibl.**

**Beth fyddwch chi'n ei weld efallai:**
Os bydd gan eich plentyn lygad croes, mae'n bsibl y byddwch chi'n sylwi weithiau bod y llygad arall yn dechrau troi yn lle hynny, yn arbennig ar gyfer gwaith agos. Mae hwn yn arwydd da oherwydd bod y llygad gwannaf yn cael ei ddefnyddio.

Os byddwch chi'n peidio â defnyddio'r diferon Atropine, mae'n bosibl y bydd y gannwyll yn aros yn fawr am hyd at 2 wythnos.

**Cwestiynau cyffredin:**

**C.** **Ydy'r diferion yn pigo?**
**A.** Na, yn wahanol i ddiferion a ddefnyddiwyd i brofi ar gyfer sbectol, nid yw'r diferion hyn yn pigo.

**C.** **Am ba hyd y byddan nhw'n cael eu defnyddio?**
**A.** Gall y driniaeth barhau am ychydig o fisoedd. Mae'n bwysig eich bod yn mynychu'n rheolaidd i'n galluogi i fonitro datblygiad gweledol ac unrhyw arwyddion i atal y driniaeth.

**C.** **Ble alla i gael mwy o ddiferion?**
**A.** Bydd yr Offthalmolegydd yn ysgrifennu at eich Meddyg Teulu yn gofyn iddo/ iddi gyflenwi diferion Atropine hyd nes gorffen y driniaeth neu os byddwch chi'n methu sawl apwyntiad, byddwn ni'n cysylltu â'r Meddyg Teulu i ofyn iddo/ iddi atal cyflenwi'r diferion.

**Sgil effeithiau anghyffredin:**
- Tymheredd uchel
- Croen sych
- Gwedd goch, wridog
- Anesmwythder
- Amrannau wedi chwyddo ac yn cosi

**Os bydd hyn yn digwydd, peidiwch â defnyddio'r diferion a chysylltwch â'r Clinig Llygaid (01633 238400) neu eich Meddyg Teulu.**

**Pwysig!**

Cofiwch ddweud wrth yr ysgol/ y feithrinfa am effeithiau'r diferion Atropine. Os yw eich plentyn yn cael unrhyw driniaeth arall cofiwch sicrhau bod eich Meddyg/ Deintydd yn gwybod am hyn.

Cyfeirnod: www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/
Chwiliwch am "Llygad Diog"

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**